**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU NEWID SEFYDLIADOL**
**18 RHAGFYR 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Llun, 18 Rhagfyr 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Dave Mackie (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Sean Bibby, Geoff Collett, Ian Dunbar, Tudor Jones, Mike Reece, Paul Shotton a David Wisinger

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr: Hilary McGuill (ar ran Mared Eastwood) a Kevin Hughes (ar ran Veronica Gay)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd: Marion Bateman. Prif Weithredwr.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Roedd y Cynghorwyr Patrick Heesom ac Aaron Shotton yn bresennol fel arsylwyr.

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Ian Roberts, Aelod Cabinet ar gyfer Addysg, a'r Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 1), Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 2), Swyddog Datblygu Chwarae, Swyddog Mannau Agored Cyhoeddus, a'r Swyddog Datblygu Chwarae. (Ar gyfer Cofnod Rhif 35) Cyfarwyddwr Cynorthwyol Chwarae Cymru

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 33. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

## 34. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2017.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 35. CHWARAE CYMRU A DIGONOLRWYDD CHWARAE

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 1) yr adroddiad i alluogi sylwadau a thrafodaeth i ddigwydd cyn darparu hyfforddiant i aelodau a staff ddechrau 2018 i gefnogi datblygiad chwarae yn Sir y Fflint yn y dyfodol. Darparodd wybodaeth gefndir a nododd fod y Cyngor ar y cyfan wedi cynnal ymrwymiad cryf i chwarae er gwaethaf y blynyddoedd diweddar o lymder. Cyflwynodd Janet Roberts, Swyddog Datblygu Chwarae, a Marianne Mannello,

Cyfarwyddwr Cynorthwyol Chwarae Cymru, a'u gwahodd i roi cyflwyniad ar Gyfleoedd Chwarae Digonol yn Sir y Fflint. Dyma oedd pwyntiau allweddol y cyflwyniad:

- yr hawl i chwarae
- Dyletswydd Cyfleoedd Chwarae Digonol Llywodraeth Cymru
- beth sydd yn dy rwystro di rhag chwarae y tu allan?
- dathlu llwyddiant
- meysydd pryder
- cyfleoedd
- blaenoriaethau wrth symud ymlaen

Diolchodd y Cadeirydd i Gyfarwyddwr Cynorthwyol Chwarae Cymru a'r Swyddog Datblygu Chwarae am eu cyflwyniad.

Gwnaeth y Cynghorydd Ian Dunbar sylw ar bwysigrwydd cynlluniau chwarae yn arbennig yn ystod cyfnod gwyliau'r Haf gan nad oedd pob teulu yn gallu mynd â phlant i ffwrdd ar wyliau. Cyfeiriodd at y rhaglen arian cyfatebol a siaradodd am yr anhawster a brofwyd gan Gynghorau Tref a Chymuned a oedd a nifer o gynlluniau chwarae ac ardaloedd chwarae i'w hariannu a'u cynnal. Dywedodd y Cynghorydd Dunbar hefyd fod rhai ardaloedd chwarae yn mynd i gyflwr gwael oherwydd diffyg cyllid i wella ac adnewyddu offer ac nid oedd goleuadau digonol mewn rhai o'r ardaloedd chwarae hŷn. Gofynnodd y Cynghorydd Dunbar a ellid darparu cyllid drwy Gytundebau Adran 106 gyda datblygwyr lleol.

Dywedodd y Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 1) fod arian cyfalaf wedi ei neilltuo'r llynedd i fynd i'r afael â phob ardal chwarae oedd wedi derbyn lefel 'coch' i'w codi i'r safon ofynnol. Eglurodd hefyd fod gwaith yn parhau gyda Chynllunio i edrych ar ganllawiau diwygiedig ynghylch polisïau cynllunio a chyllid gan ddatblygwyr ar gyfer ardaloedd chwarae.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Paul Shotton yr angen i hyrwyddo chwarae awyr agored i bobl ifanc a siaradodd am fendithion iechyd a lles tymor hir a fyddai'n cael eu sicrhau. Anogodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Chwarae Cymru Gynghorau Tref a Chymuned i gefnogi datblygiad chwarae yn y gymuned leol ac eirioli dulliau ar gyfer datblygu chwarae a oedd "y tu allan i'r bocs" o safbwynt darpariaeth Chwarae. Cytunodd gyda'r farn a fynegwyd gan y Cynghorydd Shotton a dywedodd y byddai Chwarae Cymru yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws Cymru i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd chwarae. Tynnodd y Cynghorydd Shotton sylw at y cyllid loteri a oedd ar gael drwy'r cynllun 'Our Backyard' ac eglurodd fod Cyngor Tref Cei Connah wedi llwyddo gyda'i gais am gyllid.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Brian Lloyd ynghylch Parkour neu Redeg Rhydd, dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Chwarae Cymru fod hwn yn fath penodol o ddarpariaeth ac nid oedd yn ymwybodol o gynllun yng Ngogledd Cymru

Diolchodd y Cynghorydd David Wisinger i'r swyddogion am yr adrodd a chydnabod y cynnydd oedd wedi cael ei wneud mewn darpariaeth chwarae, serch hynny mynegodd bryder nad oedd nifer o ardaloedd chwarae "yn cyrraedd

y safon".   Cydnabu’r Prif Swyddog y pryderon ac ail-bwysleisiodd fod arian cyfalaf wedi ei ddyrannu mewn rhaglen 3 blynedd i fynd i’r afael â’r ardaloedd chwarae hynny oedd â statws ‘coch’.  Eglurodd fod nifer sylweddol o ardaloedd chwarae wedi cael eu datblygu eleni a rhoddodd sicrwydd fod mecanwaith ar waith i ddelio â darpariaeth chwarae.

Awgrymodd y Cynghorydd Hilary McGuill y dylid datblygu cysylltiadau mwy rhagweithiol gydag ysgolion i fanteisio ar y cyfleusterau sydd eisoes ar gael a chyfeiriodd ar y defnydd o gaeau chwarae a chaeau ysgolion y tu allan i oriau ysgol fel enghraifft.  Awgrymodd y Cynghorydd McGuill hefyd fod angen i’r Awdurdod a Chynghorau Tref a Chymuned fod yn fwy creadigol o ran darpariaeth chwarae ac ategodd yr angen i “feddwl y tu allan i’r bocs” o safbwynt sut y darparwyd chwarae.  Soniodd am werth "chwarae'n rhydd” gyda deunyddiau wedi eu hailgylchu fel pren a chardbord a dywedodd y gallai’r Cyngor gynorthwyo gyda chost gwaredu eitemau o’r fath.

Dywedodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Chwarae Cymru fod pecyn gwaith wedi ei ddatblygu i gynorthwyo ysgolion ac roedd ar gael ar wefan Chwarae Cymru.  Soniodd y Cynghorydd Ian Roberts am y defnydd o gaeau ysgolion pan roedd ysgol ar gau a chyfeiriodd at faterion atebolrwydd yswiriant a rheoli risg a oedd angen eu hystyried yn ofalus ymlaen llaw.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Tudor Jones ynghylch yr wybodaeth a ddarparwyd wrth asesu cyfleoedd chwarae yn Sir y Fflint, cytunwyd fod angen darparu rhagor o fanylion ynglŷn â symudiadau i’w darparu yn yr ystadegau Cyfleoedd Chwarae Digonol.

Diolchodd y Cadeirydd i Gyfarwyddwr Cynorthwyol Chwarae Cymru a swyddogion yr Awdurdod ar gyfer eu presenoldeb a mewnbwn.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Fod y pwyllgor yn cefnogi'r cynnydd a wnaed gan Sir y Fflint o ran darpariaeth chwarae ac yn argymell fod y Cyngor yn ystyried cefnogi chwarae rhydd gyda deunyddiau wedi eu hailgylchu fel coed a chardbord a chostau gwaredu eitemau o’r fath;

(b) Dylid darparu rhagor o fanylion am symudiadau yn yr ystadegau Cyfleoedd Chwarae Digonol; a

(c) Dylid diolch i Marianne Manello o Chwarae Cymru a swyddogion Sir y Fflint a oedd wedi cyfrannu at yr eitem i gael eu diolch am eu presenoldeb a’u mewnbwn.

## 36. RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol i’w hystyried.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y cyflwynwyd gydag amodau ac y dylid awdurdodi'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd neu'r Hwylusydd Trosolwg a Chraffu mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd os bydd angen.

(b) Dylid cyflwyno adroddiad ar y Polisi Cynllunio Diwygiedig i'r pwyllgor maes o law.

**37. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**38. PWLL NOFIO CEI CONNAH - ADRODDIAD CYNNYDD CANOL BLWYDDYN CAMBRIAN AQUATICS 2017/18**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 1) adroddiad i alluogi'r Pwyllgor i ystyried cynnydd ar gyfer chwe mis cyntaf 2017/18 ac i wneud sylwadau a fydd yn hysbysu datblygiad y Cynllun Busnes nesaf gan Cambrian Aquatics ar gyfer cyflwyniad ffurfiol i'r Cyngor ddechrau 2018. Darparodd y Prif Swyddog wybodaeth gefndir a gwahoddodd Simon Morgan, Cadeirydd Cambrian Aquatics, i gyflwyno adolygiad cynnydd canol blwyddyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Dylid nodi cynnydd Cambrian Aquatics, datblygiad Cynllun Busnes, a chefnogaeth barhaus i'r Trosglwyddiad Asedau Cymunedol hwn; a

(b) Dylid diolch i Simon Morgan, Cadeirydd Cambrian Aquatics am ei bresenoldeb a'i gyfraniad i'r cyfarfod.

**39. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol ac nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.16pm)

………………………………………….
**Cadeirydd**